# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 6b)**
**Adroddiad ar y Digwyddiadau i nodi'r Dengmlwyddiant**

**Dyddiad:** 19 Mai 2010
**Amser:** 7:45
**Ystafell:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw'r awdur a rhif ffôn i gysylltu: Natalie Drury-Styles, est 8563**

# Adroddiad ar y Digwyddiadau i Nodi'r Dengmlwyddiant

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn*

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r prif faterion

1.1 Diben y papur hwn yw nodi'r prif weithgareddau a oedd yn nodi deng mlynedd o ddatganoli; sut yr oedd y gweithgareddau hynny'n cyflawni nod ac amcanion y Comisiwn a'r ymrwymiad etifeddol i ymgysylltu â, a chymryd rhan mewn democratiaeth yn y dyfodol.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Gwahodd y Comisiwn i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Nod y rhaglen i nodi'r dengmlwyddiant oedd adfywio'r diddordeb, y ddealltwriaeth a'r ymgysylltiad hygyrch rhwng y Cynulliad a phobl Cymru. Yr amcanion oedd:

- cyhoeddi'r hyn a gyflawnwyd dros ddeng mlynedd datganoli;
- ein cynorthwyo i wireddu'r brand;

- gwella ymwybyddiaeth o'r dulliau o gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cynulliad;
- rhoi'r Cynulliad mewn safle partner arweiniol wrth fynegi dinasyddiaeth Gymreig;
- darparu rhaglen o weithgareddau wedi'u canoli ar y dinesydd yn unol â strategaeth gyfathrebu'r Cynulliad am flwyddyn o amser; a
- monitro ac arfarnu canlyniad rhaglenni er mwyn ein galluogi i edrych a yw arferion ymgysylltu cyfredol yn briodol, gyda'r bwriad o lywio datblygiad strategaethau cyfathrebu yn y dyfodol.

3.2 Roedd y rhaglen i'w chynnal o fis Mai 2009 i fis Ebrill 2010 ac fe'i rhannwyd yn dri chategori:

- pedwar digwyddiad o bwys;
- gweithgareddau dan arweiniad y Cynulliad; a
- digwyddiadau ar y cyd â phartneriaid allweddol.

Pedwar digwyddiad o bwys

3.3 Ar y dechrau, y bwriad gwreiddiol oedd cynnal pedwar digwyddiad o bwys i nodi deng mlynedd o ddatganoli:

- digwyddiad lansio;
- lansio Rhaglen y Pierhead ar gyfer y Dyfodol;
- gŵyl wleidyddol; a
- derbyniad i gloi'r rhaglen

3.4 Fodd bynnag, achosodd yr oedi i gwblhau prosiect y Pierhead (o fis Hydref i fis Mawrth) ohirio Rhaglen y Dyfodol. Cafodd yr oedi effaith ar amseriad yr ŵyl wleidyddol y bwriadwyd ei chynnal (Sesiynau'r Pierhead) y bu'n rhaid ei symud o fis Hydref i fis Mawrth.

3.5 O gofio'r hinsawdd economaidd presennol credwyd nad oedd yn ddoeth cael derbyniad i gloi'r rhaglen dengmlwyddiant mor fuan ar ôl cynnal Sesiynau'r Pierhead ac felly cynhwyswyd y derbyniad hwnnw fel rhan o'r Sesiynau.

Y digwyddiad lansio

3.6 Dyddiad cychwyn rhaglen ddigwyddiadau dengmlwyddiant y Cynulliad oedd 12 Mai 2009, a oedd yn nodi deng mlynedd ers y Cyfarfod Llawn cyntaf.

3.7 Er mwyn adfywio diddordeb, dealltwriaeth ac ymgysylltiad hygyrch rhwng y Cynulliad a phobl Cymru, roedd yn bwysig fod pob agwedd ar y diwrnod yn cymryd amser i edrych ar orffennol, presennol ac ar ddyfodol datganoli yng Nghymru. Felly roedd diwrnod y lansio'n cynnwys Aelodau Cynulliad presennol a chyn Aelodau'r Cynulliad yn ogystal â phenseiri allweddol datganoli; lansiodd y Llywydd y prif ddarganfyddiadau a ddeilliodd o'i Daith o Gymru i lywio gwaith Allgymorth cyfredol; a chyfranogodd myfyrwyr mewn Cynhadledd CEWC-Cymru yn Siambr Hywel a oedd yn edrych ar faterion a fydd yn effeithio arnynt hwy yn y dyfodol. Cafodd nifer o blant a oedd yn dathlu eu degfed pen-blwydd ar 12 Mai eu gwahodd i barti pen-blwydd yn y Senedd lle y cawsant gyfarfod â'r Llywydd, Aelodau'r Cynulliad a phan gawsant daith o amgylch y Senedd gyda'u rhieni/gwarcheidwaid.

3.8 Roedd sylw twymgalon i'r gweithgareddau gan y cyfryngau ac roedd yr atborth oddi wrth y rhai a fu yno yn hynod o gadarnhaol. Cafodd y Cynulliad ei sicrhau ei fod wedi taro'r hoelen ar ei phen wrth nodi'r achlysur hwn.

Gweithgareddau dan arweiniad y Cynulliad

3.9 Lluniwyd y mwyafrif o ddigwyddiadau rhaglen y dengmlwyddiant o brosiectau presennol. Roedd mentrau newydd, fel Taith y Llywydd drwy Gymru, sefydlu gwasanaethau newydd Allgymorth ac E-ddemocratiaeth, lansio Bws Allgymorth Gogledd Cymru, yn rhannau nodedig o'r rhaglen ddeng mlynedd a llwyddasant i gynyddu ymgysylltiad â democratiaeth yn ogystal â throsglwyddo

etifeddiaeth werthfawr ar gyfer y dyfodol. Gwerthuswyd pob gweithgaredd newydd yn ystod y digwyddiad, ac ar ôl y digwyddiad er mwyn amlygu llwyddiannau penodol ac er mwyn edrych ar wersi a ddysgwyd.

Taith y Llywydd drwy Gymru

3.10 Cynhaliwyd pum digwyddiad drwy Gymru lle y bu'r Llywydd yn ymgysylltu â grwpiau ac unigolion nad ydynt o bosibl wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y broses ddemocrataidd am y ddeng mlynedd ddiwethaf. Gweithiodd y Cynulliad mewn partneriaeth â sefydliadau fel y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd, Stonewall Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Mencap Cymru, Merched y Wawr ac ysgolion, i ddynodi rhwystrau gwirioneddol a rhwystrau canfyddedig i gymryd rhan mewn democratiaeth. Lansiwyd adroddiad ar y daith ar 12 Mai, a llywiodd yr adroddiad weithgaredd Allgymorth y Cynulliad drwy gydol y flwyddyn.

Etifeddiaeth – sefydliad a rhaglennu'r Gwasanaeth Allgymorth

3.11 Mae'r tîm Allgymorth wedi ymgysylltu'n rhagweithiol a strategol â grwpiau nad ydynt wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn draddodiadol, yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru, y gymuned Somali ac Age Concern. Mae gweithio gyda grwpiau fel hyn wedi helpu i sicrhau bod gwybodaeth am weithgarwch y Cynulliad a gwybodaeth am gyfleoedd i gymryd rhan ynddynt yn cael ei dosbarthu i'r cynulleidfaoedd ehangaf a mwyaf priodol posibl.

3.12 O edrych ymlaen, cam nesaf ein gwaith Allgymorth yw datblygu cysylltiadau cryfach â sectorau penodol (er enghraifft, materion busnes, cyfreithiol a materion cyhoeddus) i ddatblygu ymhellach gymdeithas sifil wybodus ac ymgysylltiedig fel yr aiff y Cynulliad i mewn i'w ddegawd nesaf.

Bws y Cynulliad – allgymorth a chefnogi busnes

3.13 Lansiwyd bws Allgymorth Gogledd Cymru fel rhan o Daith y Llywydd drwy Gymru. Bu'r bws yn adnodd newydd rhagorol i

gynorthwyo'r Cynulliad i ehangu pa mor weledol ydyw yn arbennig yng nghymunedau yng Ngogledd Cymru. Mae wedi annog cymryd rhan drwy groesawu cyfarfodydd â sefydliadau a grwpiau lleol. Cyflwynodd y bws ddull arloesol newydd o gasglu tystiolaeth i bwyllgorau, sef drwy ddefnyddio podlediadau a gwe flogiau sydd wedi ehangu'r ymgysylltu â democratiaeth ac wedi annog mwy o sicrhau canlyniadau gan gynrychiolwyr. Mae gan y bws y cyfleuster i gasglu atborth ysgrifenedig ac atborth electronig am gynlluniau'r Cynulliad; defnyddir yr atborth i lywio gweithgaredd allgymorth drwy holl wasanaethau'r Cynulliad. Mae teclynnau gwerthuso cynhwysfawr yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i adnabod unrhyw fylchau pellach yng ngweithgarwch ymgysylltu'r Cynulliad.

Digwyddiadau ar y cyd â Phartneriaid Allweddol

3.14 Mae Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i fod "*yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru".* Roedd yr ymrwymiad hwn wedi ein hannog a'n herio i fod yn gynrychioliadol a chynhwysol wrth nodi ein dengmlwyddiant drwy wneud ein gorau glas i annog cynllunio ar gyfer sicrhau bod cynifer o bobl ag sy'n bosibl yn cymryd rhan yn ein digwyddiadau.

3.15 Drwy weithio â sefydliadau partner llwyddodd y Cynulliad i gyrraedd cynulleidfa ehangach ac ar yr un pryd yn sicrhau ein bod yn ddoeth o ran ein harian drwy weithio ar y cyd.

Penwythnos agored ar y cyd â Chanolfan Mileniwm Cymru

3.16 Ar 14 a 15 Tachwedd cynhaliodd y Senedd a Chanolfan Mileniwm Cymru benwythnos arbennig o gerddoriaeth, theatr a barddoniaeth. Roedd yn cynnwys: theatr liwgar a pherfformiad cerddorol gan Hijinx; darlleniadau o farddoniaeth (yn cynnwys barddoniaeth a oedd yn nodi degawd o ddatganoli) gan Fardd Cenedlaethol Cymru, Gillian Clarke, a Ceri Wyn Jones, enillydd y goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd; a pherfformiadau gan Gorws Merched Arddull Siop Barbwr Caerdydd a Band Pres Dinas Caerdydd "Melin Griffith" yn y Senedd.

3.17 Parciwyd y bws Allgymorth ger y Senedd am y penwythnos cyfan a rhoddodd hynny gyfle i deuluoedd ac ymwelwyr â'r Bae i gyfarfod â rhai o Aelodau'r Cynulliad a'r Llywydd. Roedd ymateb da i'r gweithgareddau gan y cyhoedd fel y darganfuwyd gan y pod arolwg wrth i ymwelwyr ymadael o'r bws.

**Agor y Pierhead a digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi, 1 Mawrth**

3.18 Cyrhaeddodd Prosiect y Pierhead uchafbwynt cyffrous a llwyddiannus ac ail-agorwyd yr adeilad yn swyddogol i'r cyhoedd ar 1 Mawrth. Ymhlith y gwesteion a wahoddwyd roedd staff a arferai weithio yn y Pierhead, Cymdeithas y Llynges Fasnachol, Hanes Celfydydd Butetown, sefydliadau partner o'r Bae, contractwyr a oedd yn ymwneud â Phrosiect y Pierhead a phlant o Ysgol Mount Stuart a fu'n canu yn y digwyddiad.

3.19 Yn dilyn agoriad swyddogol y Pierhead, cyflwynodd yr Ynad John Thomas ddarlith Dydd Gwyl Dewi Canolfan Llywodraethiant Cymru, "*Ein Strwythurau Llywodraethu sy'n Newid: Eglurder a Hyder*", yn y Pierhead.

3.20 Yna agorwyd y Pierhead i'r cyhoedd. Cafwyd dros 400 o ymwelwyr ar ei ddiwrnod cyntaf a dros 2500 o ymwelwyr yn ystod yr wythnos gyntaf.

3.21 Roedd rhan olaf gweithgareddau Dydd Gwyl Dewi yn cysylltu'r Pierhead â'r Senedd. Trefnwyd Gwobrau Cymunedol Seren Aur Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y Cenhedloedd Unedig yn y Senedd ac roedd y digwyddiad hwn yn cydnabod cyfraniad pobl Cymru i ddatblygiad rhyngwladol.

3.22 Yr arddangosfa gelf agoriadol yn Oriel y Dyfodol oedd arddangosfa *Recollections* gan Philip Jones Griffiths. Denodd naws y gofod a'r arddangosfa ei hun unigolion allweddol o'r sector celfyddydol i ddod i weld y lleoliad ac i ddysgu am holl bosibiliadau'r Pierhead.

**Sesiynau'r Pierhead, 4-6 Mawrth**

3.23 Sesiynau'r Pierhead oedd y digwyddiad mawr cyntaf i gael ei gynnal yn y Pierhead, rhwng 4 a 6 o Fawrth. Roedd y prif sesiynau'n cynnwys cymysgedd o gyfweliadau a thrafodaethau panel gydag amrywiaeth o siaradwyr i ddenu a dal diddordeb cynulleidfaoedd newydd. Roedd y Sesiynau'n trafod materion fel dyfodol newyddiaduraeth, beth a fyddwn yn ei fwyta yn 2050 ac effaith Dr Who ar Gymru. Nododd 94 y cant o'r gynulleidfa y byddent yn mynd i ddigwyddiad tebyg eto. Mae cynlluniau ar waith i drefnu Sesiynau'r Pierhead 2011 yn ogystal â nifer o Sesiynau 'Blasu' drwy gydol y flwyddyn a'r tu allan i Gaerdydd.

3.24 Llwyddodd y gyfres o ddigwyddiadau yn ystod wythnos agoriadol lwyddiannus y Pierhead i sicrhau bod democratiaeth yn hygyrch i bartneriaid sydd eisoes yn ymwneud yng ngwaith y Cynulliad yn ogystal â chynulleidfaoedd newydd ac eang. Roedd yn arddangos y lleoedd sydd ar gael drwy'r adeilad i gynnal digwyddiadau a'r posibiliadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol. Mae cynlluniau ar waith i boblogeiddio'r Pierhead â digwyddiadau dan arweiniad y Cynulliad, digwyddiadau partner a gwaith pellach i dargedu cynulleidfaoedd gwahanol drwy ymchwil ymhlith rhai sy'n mynychu digwyddiadau pêl droed a digwyddiadau eraill.

3.25 Roedd y Sesiynau'n adlewyrchu gwerthoedd craidd y Pierhead: hysbysu, cynnwys ac ysbrydoli a'i sefydlu fel canolfan i lefaru a dadlau'n rhydd. Roedd gwaith gwerthuso manwl yn dangos bod y Sesiynau wedi cyflawni'u hamcanion a'u bod yn hynod o boblogaidd. Er mwyn sicrhau bod yr ŵyl yn hygyrch i bobl yng Nghymru, y DU a thramor, cafodd yr holl Sesiynau eu recordio a'u rhoi ar wefan y Cynulliad ar ôl yr ŵyl. Mae digwyddiadau tebyg yn cael eu hystyried er mwyn ehangu dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Cynulliad, ac i adeiladu ar sail gadarn y Sesiynau Agoriadol.

## Gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn

3.26 Rhoddodd y dengmlwyddiant gyfle i'r Cynulliad wireddu'r brand. I gynyddu'r ddealltwriaeth fwyfwy ynghylch y modd y gwneir cyfreithiau yng Nghymru, a sut y byddwn yn dwyn

Llywodraeth Cymru i gyfrif, yn cynyddu dealltwriaeth o sut mae'r Cynulliad yn gweithio ac i godi proffil gwaith a gweithgarwch Aelodau'r Cynulliad, crëwyd nifer o brosiectau llai, a oedd gyda'i gilydd yn llunio rhaglen o weithgareddau cyfathrebu a oedd yn dwyn sylw at brif gerrig milltir deng mlynedd o ddatganoli.  Roedd y dulliau hynny'n cynnwys fideos dengmlwyddiant, a ddangoswyd ar y bws, mewn digwyddiadau ac ar y wefan; a deunyddiau darlledu ac arddangos a oedd yn cofnodi prif lwyddiannau datganoli, yn darlunio 'diwrnod ym mywyd Aelod Cynulliad', neu 'tu ôl i'r llenni' yn y Cynulliad fel petai.

3.27 Gweithiodd yr holl wasanaethau rheng flaen i sicrhau bod neges gyson yn cael ei chyfleu wrth gyhoeddi cyraeddiadau'r Cynulliad a hefyd wrth greu etifeddiaeth i'w throsglwyddo ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

Yr etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol

3.28 Gwerthuswyd pob un o weithgareddau'r dengmlwyddiant yn erbyn goliau strategol y Comisiwn, amcanion y Strategaeth Gyfathrebu ac amcanion y rhaglen.

3.29 Wrth edrych i'r dyfodol, mae'r Cynulliad yn cynllunio digwyddiadau strategol a rhaglen allgymorth er mwyn cyfleu negeseuon corfforaethol a'u darparu.  Bydd y Cynulliad yn newid ffocws ei raglen ddigwyddiadau yn sylweddol.  Bydd yn sicrhau arbedion yn y rhaglen ddigwyddiadau'r haf ac yna'n ail-gyfeirio adnoddau er mwyn targedu cynulleidfaoedd newydd a chynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd.

3.30 Dangosodd y rhaglen dengmlwyddiant fod y Cynulliad yn cymryd ei ymrwymiad i gynyddu ac ehangu ymgysylltiad pawb â democratiaeth o ddifrif.

3.31 Bydd rhai agweddau o'n hymdriniaeth â dengmlwyddiant y Cynulliad yn ffurfio rhan allweddol o gyfathrebu mewn gweithgareddau yn y dyfodol, er enghraifft, y Refferendwm ac Etholiad 2011:

- cyfathrebu trwy fathau newydd o ddigwyddiadau, er enghraifft y Sesiynau;

- **lledaenu negeseuon i bobl Cymru yn eu cymunedau a'u grwpiau cymdeithasol drwy'r Bws Allgymorth a Thaith y Llywydd; a**

- **cyfathrebu drwy ddulliau e-ddemocratiaeth arloesol a fydd yn rhan allweddol o gyfathrebu ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol, er enghraifft, y Refferendwm ac Etholiad 2011.**

**3.32 Rydym wedi ymrwymo i annog gwell dealltwriaeth o ddemocratiaeth ymhlith pobl Cymru gan adeiladu ar lwyddiannau'r Cynulliad er mwyn bwrw ymlaen â rhaglen ymgysylltu sy'n strategol, yn newydd a dyfeisgar ac wedi'i thargedu'n effeithiol.**